Enw



DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Ewythr Jacob yn ei dwyllo**

## Stori 4 Jacob yn cael gwraig.

Aeth Jacob i weld ei ewythr Laban a'i deulu yn Haran. Ar ôl taith hir, cwrddodd Jacob â bugeiliaid ger ffynnon gyda'u defaid.

Gofynnodd iddyn nhw a oedden nhw'n nabod ei ewythr, Laban. "Ydyn," atebon nhw. "Dyma'i ferch, Rachel, gyda defaid ei thad."



**Lliwiwch y llun a thynnu lluniau wynebau'r bobl wrth y ffynnon.**

**Ysgrifennwch enw merch Laban, R __ __ __ __ .**

Helpodd Jacob Rachel i roi dŵr i'r defaid. Rhedodd Rachel adref a dweud wrth ei thad am Jacob. Gofynnodd Laban i Jacob aros gyda nhw.

Cytunodd Jacob a dechrau gweithio dros ei ewythr. Addawodd Laban roi Rachel yn wraig i Jacob. Pan ddaeth amser y briodas, twyllodd Laban Jacob a rhoi chwaer Rachel, Lea, yn wraig iddo!

Doedd ar Jacob ddim eisiau priodi Lea! Dywedodd Laban mai Lea ddylai briodi gyntaf am mai hi oedd yr hynaf. Druan â Jacob! Roedd Laban wedi'i dwyllo ef fel y gwnaeth ef dwyllo ei frawd a'i dad.

Mae'r Beibl yn dweud, **"Bydd eich pechod yn eich dal."**

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120